# PWYLLGOR PENODI

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, R. Meirion Jones, Bryan Owen a P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes a T Ll Hughes MBE |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2017.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol ar y sail y gallai olygu tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm. "**

**4 PENODIADAU STAFF**

- **Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

  Cyflwynwyd 2 ymgeisydd i'w cyfweld yn dilyn adborth o'r broses benodi.

  Cafwyd cyflwyniad gan yr ymgeiswyr ac atebodd y ddau gwestiynau ar eu cyflwyniadau yn ogystal â chyfres o gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

  Yn dilyn y cyfweliadau, **PENDERFYNWYD penodi Mr Cefin Fôn Roberts i'r swydd uchod o ddyddiad i'w gytuno arno.**

- **Pennaeth Dysgu**

  Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Prif Weithredwr ar y swydd uchod.

  Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD cyflwyno'r cais i gam nesaf y broses recriwtio yn unol â pholisi'r Cyngor.**

- **Pennaeth Gwasanaethau Tai**

  Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Prif Weithredwr ar y swydd uchod.

  **PENDERFYNWYD y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Penodi gyda hyn yn dilyn trafodaethau mewnol.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

1